Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23314

## Ffurflen Ymateb yr Ymgynghoriad

# Rhoi mwy o bwyslais ar Gamau Rhagarweiniol y System Rheoli Datblygu

Hoffem eich barn ar ein cynigion ar gyfer gweithrediad manwl y prosesau cyn ymgeisio a gyflwynwyd gan adrannau 15 ac 16 Bil Cynllunio (Cymru). Rydym hefyd am gael ei barn ar ein cynigion i ddefnyddio'r pwerau a ddarperir yn y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i osod dyletswyddau ar ymgynghorai statudol.

**Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 16 Ionawr 2014*.***

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at: planconsultations-c@wales.gsi.gov.uk neu ffonio 029 2082 5632.

| **Diogelu Data** |
|---|
| Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy’n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy. Mae’n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion i’r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Mae hynny’n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i’ch enw a’ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion.<br><br>Mae’n bosibl y bydd yr enwau a’r cyfeiriadau y byddwn wedi’u cuddio yn cael eu cyhoeddi’n ddiweddarach, er nad yw hynny’n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i’r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny’n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae’r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a’i gyfeiriad, bydd hynny’n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, gallai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â’u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â’r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu’r wybodaeth. |

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23314

| **Rhoi mwy o bwyslais ar gamau rhagarweiniol y system rheoli datblygu** | | |
|---|---|---|
| **6 Hydref 2014 – 16 Ionawr 2015** | | |
| **Enw** | Rhian Jardine (Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy) | |
| **Sefydliad** | Cyfoeth Naturiol Cymru | |
| **Cyfeiriad** | Tŷ Cambria<br>29 Heol Casnewydd<br>CAERDYDD<br>CF24 0TP | |
| **Cyfeiriad e-bost** | Rhian.Jardine@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk | |
| **Math** *(dewiswch un o'r canlynol)* | Busnesau/ Ymgynghorwyr | ☐ |
| | Awdurdod Cynllunio Lleol | ☐ |
| | Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall | ☒ |
| | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb | ☐ |
| | Sector gwirfoddol (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, mentrau cydweithredol, mentrau cymdeithasol, crefyddol a sefydliadau nid er elw) | ☐ |
| | Arall (grwpiau eraill nas rhestrir uchod) neu unigolyn | ☐ |

## Math o ddatblygiad yr effeithir arno

| C1 | Ydych chi'n cytuno y dylai pob datblygiad "mawr" fod yn destun ymgynghoriad cyn ymgeisio? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ | ☐ |

Sylwadau:
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno y dylai pob datblygiad 'mawr' fod yn destun ymgynghoriad cyn ymgeisio. Fodd bynnag, hoffem nodi bod y diffiniad o ddatblygiad 'mawr' wedi'i seilio ar y diffiniad a ddarperir yn Erthygl 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Mae ein hymateb i'r ymgynghoriad ynghylch ‘Pwyllgorau cynllunio, dirprwyo a chyd-fyrddau cynllunio’ yn argymell y dylid datblygu ffactor ychwanegol er mwyn sicrhau bod y diffiniad yn rhoi sylw digonol i brosiectau sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd fel y diffinnir gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2011.

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23314

## Cyhoeddi cynigion y datblygiad

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| C2 | Ydych chi'n cytuno y dylai'r broses o gyhoeddi llythyrau cymdogion a hysbysiad safle ddilyn y canllawiau yng Nghylchlythyr 32/92? Os nad ydych, sut ddylai'r broses hysbysu weithredu? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
| | | ☐ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
Dim sylw.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| C3 | Ydych chi'n cytuno bod 21 diwrnod yn ddigon o amser ar gyfer atebion i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
| | | ☐ | ☐ | ☒ |

Sylwadau:
Gweler yr ymateb i gwestiwn 5 isod.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| C4 | A fyddai swyddfeydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn lleoliad addas ar gyfer gweld copïau caled o'r cynlluniau a'r wybodaeth atodol? Os na, lle fyddai'n addas i'r cyhoedd weld copïau caled o'r cynlluniau a gwybodaeth atodol? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
| | | ☐ | ☒ | ☐ |

Sylwadau:
Gan fod rhai awdurdodau lleol cyfredol yn ymdrin ag ardaloedd daearyddol eang ac o gofio'r bwriad i uno awdurdodau lleol, a fydd yn golygu y bydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ymdrin ag ardaloedd daearyddol

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23314

ehangach o lawer, dylid darparu nifer o leoliadau lle gall pobl weld copïau caled o geisiadau a gwybodaeth atodol. Er mwyn sicrhau nad oes yn rhaid i bobl deithio'n bell i weld cynlluniau, gallai'r lleoliadau hynny gynnwys llyfrgelloedd cyhoeddus neu, ar gyfer ceisiadau mewn ardaloedd mwy anghysbell, gallent gynnwys ysgolion mewn cymunedau lleol.

Yn ogystal â chopïau caled, dylid sicrhau bod yr holl gynlluniau ar gael yn electronig.

## Ymgynghori gyda "phersonau penodol" (ymgyngoreion statudol)

| C5 | Ydych chi'n cytuno bod 21 diwrnod yn ddigon o amser i ymgyngoreion ymateb? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ | ☒ |

Sylwadau:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn pryderu nad yw 21 diwrnod i ymdrin ag ymatebion cyn ymgeisio, sy'n ymwneud â cheisiadau mawr a datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol y bydd Adroddiadau Amgylcheddol cymhleth yn cyd-fynd â llawer ohonynt, yn ddigon o amser i ddarparu ymateb parhaol i bob ymgynghoriad cyn ymgeisio. Er enghraifft, mae cael 21 diwrnod i ymateb i gais am 10 o dai mewn ardal drefol lle nad oes dynodiadau o ran dŵr neu dreftadaeth naturiol yn agos i'r safle'n annhebygol o achosi unrhyw broblemau sylweddol, a byddai modd ymateb yn brydlon. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai'n anos o lawer i Cyfoeth Naturiol Cymru ymateb cyn pen 21 diwrnod i gais am 250 o dai wrth ymyl ACA sy'n ymwneud â'r fadfall ddŵr gribog.

Bwriedir i ymateb parhaol yn ystod y cam cyn ymgeisio arwain at gais sydd o ansawdd gwell, a fydd yn arwain at benderfyniad cynt yn ystod y cam ymgeisio, ac oherwydd hynny bydd yn ofynnol cael digon o amser i'w gwneud yn bosibl rhoi ystyriaeth lawn i wybodaeth dechnegol atodol, a allai gynnwys Adroddiadau Amgylcheddol. Felly, rydym yn awgrymu y dylid caniatáu o leiaf 42 o ddiwrnodau i ymateb os caiff Asesiad o Effaith Amgylcheddol ei gyflwyno i gefnogi cais.

Os nad ystyrir bod hynny'n dderbyniol, ac o gofio y bydd gwelliannau diwygiedig 2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd i Gyfarwyddeb 2011/92/EU yr Undeb Ewropeaidd - Asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd - y mae'n ofynnol ei throsi'n ddeddfwriaeth y DU a Chymru erbyn 2017 yn mynnu cyfnod ymgynghori nad yw'n llai na 30 o ddiwrnodau, rydym yn awgrymu y dylid defnyddio'r cyfnod hwnnw fel y cyfnod byrraf ar gyfer cael ymatebion i ymgynghoriad cyn ymgeisio.

Yn ogystal â'r sylwadau uchod, rydym yn argymell y dylai'r cyfnod y cytunir arno, beth bynnag y bo, gael ei seilio ar ddiwrnodau gwaith. Bydd hynny'n sicrhau bod ymgyngoreion statudol yn cael cyfnodau realistig i ymateb i ymgyngoriadau a bydd yn darparu ar gyfer cyfnodau megis y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a gwyliau banc eraill, sy'n gallu cwtogi'n sylweddol ar y cyfnodau a ganiateir i ymateb i ymgyngoriadau.

Er mwyn sicrhau bod ymgyngoreion yn gallu gwneud yn fawr o'r amser a ganiateir iddynt ymateb i ymgyngoriadau, dylid sicrhau bod pob fersiwn electronig o'r ceisiadau a'u data atodol ar gael o ddiwrnod cyntaf y

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23314

| |
|---|
| cyfnod ymgynghori. Yn achos ceisiadau mawr, dylid sicrhau hefyd bod nifer o gopïau caled o'r cynlluniau atodol ar gael i ymgyngoreion ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C6** | A ddylid rhoi mwy o amser os bydd y datblygwr a'r ymgynghorai yn cytuno ar hyn? | Dylid | Dylid (yn amodol ar sylwadau pellach) | Na ddylid |
| | | ☒ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
Dylid gwneud hynny, yn enwedig os ceir ymholiadau ynghylch y data technegol a ddarparwyd gan yr ymgeisydd neu os oes data ar goll.

Gweler yr ymateb i gwestiwn 5 uchod.

### Dyletswydd ar y datblygwr i ddarparu adroddiad ymgynghori cyn ymgeisio

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C7** | A oes unrhyw faterion eraill y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori cyn ymgeisio? Os felly, nodwch y materion hyn ac eglurwch pam y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori cyn ymgeisio. | Ydw | Nac ydw |
| | | ☐ | ☒ |

Sylwadau:
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno â'r materion y nodwyd y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori cyn ymgeisio, ac mae'n croesawu'n arbennig yr angen i'r adroddiad hwnnw gynnwys manylion ynghylch sut y cafodd sylwadau'r ymgyngoreion eu hystyried. Bydd hynny'n arbennig o berthnasol wrth gynnig cyngor yn ystod y cam ymgeisio ac wrth ddilyn hynt amryw faterion a'r cyngor a roddwyd.

### Y ffurflen ymholi cyn ymgeisio

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C8** | Ydych chi'n cytuno bod yr wybodaeth ym mharagraff 3.4 yn ddigonol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ymateb? | Ydw | Ydw (yn amodol ar | Nac ydw |

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23314

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | sylwadau pellach) | |
| | | ☐ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
Dim sylw.

## Cynnal cofnodion y gwasanaeth cyn ymgeisio

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| C9 | Ydych chi'n cytuno y dylai'r Awdurdodau Cynllunio Lleol gynnal cofnodion gofodol o ymholiadau cyn ymgeisio? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
| | | ☒ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
Rydym yn cytuno â'r cynnig y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol gynnal cofnodion gofodol o ymholiadau cyn ymgeisio, ac rydym o'r farn y byddant yn cynorthwyo i ddarparu gwybodaeth i'r sawl sy'n chwilio am hanes safle ac ardal o safbwynt cynllunio.

Dylid egluro am ba hyd y bydd angen i ddogfennau gael eu cadw mewn awdurdodau lleol.

## Ymateb yr Awdurdod Cynllunio Lleol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| C10 | A ddylai'r ymateb ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol gynnwys unrhyw wybodaeth arall? | Dylai | Dylai (yn amodol ar sylwadau pellach) | Na ddylai |
| | | ☐ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
Dim sylw.

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23314

## Amserlen ar gyfer ymateb

| C11 | Ydych chi'n cytuno bod 21 diwrnod yn ddigon o amser i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddarparu ymateb ysgrifenedig sy'n bodloni y gofynion sy'n cael eu nodi ym mharagraff 3.10? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
Dim sylw.

## Cyfarfod

| C12 | Ydych chi'n cytuno bod yr amserlen a'r broses ar gyfer y cyfarfod cyn ymgeisio yn briodol? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
Dim sylw.

## Ffioedd ar gyfer y gwasanaeth statudol cyn ymgeisio

| C13 | Ydych chi'n cytuno y dylai'r ffi ar gyfer y gwasanaeth statudol cyn ymgeisio fod yn seiliedig ar y taliadau dewisol presennol? Os nad ydych, sut ddylid cyfrifo'r ffioedd ar gyfer y gwasanaeth statudol cyn ymgeisio? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ | ☐ |

Sylwadau:
Ymddengys ei bod yn briodol i'r ffïoedd fod yn seiliedig ar y taliadau dewisol presennol a'r ffaith bod angen adennill costau.

Er bod y ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at ffïoedd safonol i alluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i adennill rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth cyn ymgeisio, ni cheir unrhyw gyfeiriad o gwbl at ffïoedd safonol ar gyfer ymgyngoreion statudol.7.1. Yn ôl naratif cyffredinol Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Cynllunio (Cymru) ynghylch ymgyngoreion statudol (y ceir 14 ohonynt), bydd y darpariaethau'n niwtral o ran cost (oherwydd bydd yn arwain at wneud pethau'n wahanol). Yr unig eithriad i hynny yw'r angen am adroddiad blynyddol ynghylch perfformiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru o safbwynt darparu ymatebion parhaol ac amserol,

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23314

ac amcangyfrifir y bydd hynny'n costio £1050 ychwanegol y flwyddyn rhwng pob un o'r 14 o ymgyngoreion statudol.

Er y cydnabyddir y bydd llawer o ddarpariaethau'r Bil yn golygu gweithio'n wahanol - gan ganolbwyntio ar ddarparu tystiolaeth a chyngor i sicrhau bod dogfennau strategol megis y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynlluniau Datblygu Strategol yn galluogi'r gwaith datblygu cywir i ddigwydd yn y man cywir, gan barchu cyfyngiadau amgylcheddol, a chan ganolbwyntio ar drafodaethau â datblygwyr yn ystod y camau rhagarweiniol, er enghraifft - rhaid cydnabod y bydd y Bil yn rhoi pwysau ychwanegol ar adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru. Er enghraifft, cydnabyddir y bydd y cynnig i gyflwyno gwasanaeth statudol newydd cyn ymgeisio yn arwain at gostau ychwanegol i Awdurdodau Cynllunio Lleol, ac o ganlyniad bwriedir cyflwyno darpariaethau ar gyfer tâl cenedlaethol am drafodaethau statudol cyn ymgeisio gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol (ar sail yr angen i adennill costau). Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r darpariaethau hynny'n cynnwys ymgyngoreion statudol y bydd pwysau tebyg ar eu hadnoddau ar ôl i'r ddarpariaeth statudol newydd gael ei chyflwyno.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn dadlau y dylai darpariaethau tebyg fod yn berthnasol i ymgyngoreion statudol i'w gwneud yn bosibl codi tâl am drafodaethau statudol cyn ymgeisio, er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr un chwarae teg ag Awdurdodau Cynllunio Lleol.

| C14 | A ddylai cynigion datblygu gan ddeiliaid tai sy'n cael eu cyflwyno i'r gwasanaeth cyn ymgeisio statudol gael eu heithrio rhag talu ffi? | Dylent | Dylent (yn amodol ar sylwadau pellach) | Na ddylent |
|---|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
Dim sylw.

**Ymatebion parhaol**

| C15 | Ydych chi'n cytuno â'n diffiniadau o "ymateb parhaol"? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ | ☐ |

Sylwadau:
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno â'r diffiniadau o ymateb parhaol. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r diffiniad gynnwys y posibilrwydd o gyfeirio at gyngor safonol neu ddefnyddio cyngor safonol. Fel y mae

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23314

| |
|---|
| wedi'i nodi ar hyn o bryd, mae'r diffiniad yn awgrymu na fyddai cyfeirio at gyngor safonol yn cael ei ystyried yn ymateb parhaol. I'r perwyl hwnnw, mae'n wahanol i Erthygl 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Lloegr). O'n profiad ni, ceir achosion lle mae'n werth cyfeirio at gyngor safonol a defnyddio cyngor safonol, yn enwedig yn ystod y cam cyn ymgeisio. Rydym wedi gweld ymgyngoreion statudol eraill yn buddsoddi'n helaeth yn y gwaith o ddatblygu a darparu cyngor safonol i gynulleidfaoedd allanol, gan alluogi ymgeiswyr i gael gafael ar y wybodaeth yn gynnar ac yn ystod y camau dylunio sy'n perthyn i brosiectau. Rydym yn gweld bod y gallu i gyfeirio at gyngor safonol a darparu cyngor safonol yn ffordd allweddol o alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ganolbwyntio ar geisiadau neu agweddau ar geisiadau lle mae angen cyngor sydd wedi'i deilwra, ac yn ffordd effeithiol o ryddhau amser i roi blaenoriaeth i'r agweddau hynny. I grynhoi, byddem yn hoffi gweld yr agwedd hon yn cael sylw'n rhan o'r diffiniad o ymateb parhaol. |

## Amserlen ar gyfer ymateb

| C16 | Ydych chi'n cytuno bod 21 diwrnod yn amser rhesymol i ymgyngoreion statudol ddarparu "ymateb parhaol" i geisiadau ymgynghoriad? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ | ☒ |

Sylwadau:
Gweler yr ymateb i gwestiwn 5 uchod, yn enwedig ynghylch ceisiadau sy'n cynnwys Adroddiadau Amgylcheddol ac Asesiadau o Effaith Amgylcheddol.

Yn achos ymgyngoriadau cyn ymgeisio ynghylch ceisiadau mawr a datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, ac yn achos ymgyngoriadau ynghylch ceisiadau cynllunio sy'n cynnwys Asesiad o Effaith Amgylcheddol ac Adroddiadau Amgylcheddol, rydym yn awgrymu y dylai ymgyngoreion statudol gael 42 o ddiwrnodau i ddarparu ymateb parhaol i geisiadau ymgynghori.
Yn achos ymatebion i ymgyngoriadau eraill (cymeradwyo bod amodau wedi'u cyflawni, cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl, a newidiadau ansylweddol i ganiatadau cynllunio) lle mae angen ymateb parhaol, rydym o'r farn ei bod yn debygol y bydd 21 diwrnod yn amser rhesymol oni cheir problemau o bwys o safbwynt safleoedd Ewropeaidd neu gyrsiau dŵr ac ati (gweler yr ymateb i gwestiwn 1 uchod).

## Adroddiadau perfformiad

| C17 | A oes gennych unrhyw sylwadau am gynnwys yr adroddiad perfformiad? | Oes | Oes (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac oes |
|---|---|---|---|---|

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23314

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ | ☐ |

Sylwadau:
Rydym wedi nodi cynnwys eang yr adroddiad perfformiad, fel y caiff ei nodi yn adrannau 4.21 a 4.22.

Byddem yn croesawu trafodaeth bellach ynghylch cynnwys a fformat yr adroddiadau hyn, oherwydd nid yw'n glir sut y cyfrifwyd y costau a amcangyfrifir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â'r Bil Cynllunio, ond os bwriedir i'r adroddiadau perfformiad fod yn ddogfennau ystyrlon, rydym o'r farn bod yr amcangyfrif o gostau tebygol llunio'r dogfennau hynny'n rhy isel. Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n datblygu adnodd cymorth TGCh integredig ar gyfer ei wasanaeth cynllunio datblygu. Nes y bydd yr adnodd hwnnw ar waith, bydd ein gallu i adrodd ynghylch manylion y tu hwnt i nifer y ceisiadau a gawn a'r amser a gymerir i ymateb yn gyfyngedig. O ganlyniad, mae angen i ni dynnu eich sylw at y ffaith y bydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn gallu adrodd ynghylch y manylion a nodwyd, gael rhywfaint o amser paratoi i allu bodloni'r gofynion ychwanegol a nodwyd.

Byddem yn awgrymu'n daer y dylai perfformiad gael ei ystyried o safbwynt y cyfraniad neu'r cyngor a ddarparwyd yng nghyswllt ansawdd y datblygiad terfynol a godir, neu'r ffaith bod effeithiau wedi'u hosgoi neu'u lleihau oherwydd yr ymatebion a ddarparwyd i ymgeiswyr ac Awdurdodau Cynllunio Lleol gan ymgyngoreion statudol. Byddai hynny'n ei gwneud yn bosibl creu cysylltiadau â ffocws y rhaglen lywodraethu ar ganlyniadau, yn enwedig nodau a dangosyddion y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu cyfle i drafod sut y gallai adroddiadau perfformiad sôn am allbynnau ansoddol.

## Arall

| C18 | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau penodol nad ydym wedi delio â hwy, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi. | Oes | Oes (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac oes |
|---|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ | ☐ |

Sylwadau:
I grynhoi, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r cynigion i roi mwy o bwyslais ar gamau rhagarweiniol y system rheoli datblygu ac mae o'r farn y gallent, pe baent yn cael eu mabwysiadu gan bawb sy'n ymwneud â'r broses ddatblygu, gyflymu'r broses ar gyfer ymdrin â cheisiadau cynllunio, gwella ansawdd datblygiadau a lleihau effeithiau amgylcheddol.

Er hynny, fodd bynnag, rydym yn pryderu ynghylch manylion rhai o'r cynigion sydd yn y ddogfen, yn enwedig y cyfnod o 21 diwrnod ar gyfer cael pob ymateb i ymgyngoriadau ynghylch datblygiadau mawr, a'r adnoddau y mae eu hangen i lunio'r adroddiad perfformiad. Byddem yn croesawu cyfle i drafod y materion hynny â chi.

Nid wyf am i'm henw/cyfeiriad gael ei gyhoeddi gyda'm hymateb (ticiwch) ☐

## <u>Sut i Ymateb</u>

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23314

**Cyflwynwch eich sylwadau gan ddefnyddio un o'r ffyrdd canlynol:**

| **E-bost** |
|---|
| Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon at:<br>planconsultations-c@wales.gsi.gov.uk<br><br>(Rhowch “WG213314” yn y llinell testun). |
| **Postio** |
| Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon at:<br>**Y Gangen Rheoli Datblygu**<br>**Yr Is-adran Gynllunio**<br>**Llywodraeth Cynulliad Cymru**<br>**Parc Cathays**<br>**Caerdydd**<br>**CF10 3NQ** |
| **Gwybodeth ychwanegol** |
| Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn,<br>Anfonwch e-bost at: planconsultations-c@wales.gsi.gov.uk<br>neu<br>Ffoniwch: Alan Groves ar 029 2082 5362 |